



Cynllun Iaith Gymraeg 2011 - 2014.

Eitem		Rhif Tudalen
1	CYFLWYNIAD	3
2	PROFFIL Y COLEG	3
3	<p>GWEITHREDU A MONITRO / CYNLLUNIO A CHYFLENWI GWASANAETH</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfrifoldebau Gweithredu a Monitro • Trefniadau Gweinyddu'r Cynllun • Polisiâu a Mentrau Newydd • Cydymffurfiaeth Trydydd Parti • Materion Staffio – gan gynnwys recriwtio / hyfforddiant / gwybodaeth am sgiliau ieithyddol staff • Prosesau Monitro ac Adolygu • Ansawdd • Sylwadau ac Achwynion • Cyhoeddi Gwybodaeth am y Cynllun a Rhoi Cyhoeddusrwydd iddo 	5
4	<p>DATBLYGU ETHOS CYMRAEG YN Y COLEG (Haen 1 y Strategaeth)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trefniadau Gweinyddol • Datblygu Ethos Cymraeg o fewn y cwricwlwm • Delio ag Aelodau'r Cyhoedd Cymraeg eu Hiaith • Wyneb Cyhoeddus y Coleg • Marchnata a hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg/yn ddwyieithog (yn cynnwys hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i unedau cyfathrebu cyfrwng Cymraeg / cyrsiau a darpariaeth ddwyieithog a chyfrwng Cymraeg). 	9
5	<p>DATBLYGU SGILIAU CYFATHREBU DWYIEITHOG I YCHWANEGU AT Y DDARPARIAETH CYFRWNG SAESNEG (Haen 2 y Strategaeth)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllunio a Rheoli Cwricwlwm y Coleg • Y Ddarpariaeth Gyfredol yn y Coleg • Cwricwlwm y Coleg 	13
6	<p>DATBLYGU DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG NEU DDWYIEITHOG AR GYFER DYSGWYR ÔL 14 OED (Haen 3 y Strategaeth)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllunio a Rheoli Cwricwlwm y Coleg • Y Ddarpariaeth Gyfredol yn y Coleg • Cwricwlwm y Coleg • Cydweithredu a Phartneriaethau 	14
7	AMSERLEN / CYNLLUN GWEITHREDU	17
8	Atodiad 1	18

1. Cyflwyniad

- 1.1** Cynllun Iaith Gymraeg yw hwn a ddarparwyd yn ôl Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- 1.2** Mae'r ddogfen hon yn rhagflaenu Cynllun Iaith Gymraeg cyntaf Coleg Morgannwg, cynllun a gymeradwywyd o dan adran 14(1) Deddf yr Iaith Gymraeg Chwefror 2006.
- 1.3** Mae Coleg Morgannwg wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gyfartal. Mae'r cynllun yn egluro sut bydd y coleg yn gweithredu'r egwyddor honno pan fydd yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru..
- 1.4** Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar ddatblygu tair elfen allweddol a nodir yn Strategaeth Ddwyeithog Genedlaethol Colegau Cymru ar gyfer Addysg Bellach sef:
 1. Datblygu ethos Gymraeg yn y coleg
 2. Datblygu sgiliau cyfathrebu dwyeithog i ychwanegu at y ddarpariaeth cyfrwng Saesneg
 3. Datblygu darpariaeth cyfrwng Gymraeg neu ddarpariaeth ddwyeithog ar gyfer dysgwyr ôl-14.
- 1.5** Ceir manylion sut y datblygwyd y tair elfen hyn yn adran 3, 4 a 5 o'r Cynllun. Mae Adran 2 y Cynllun yn canolbwyntio ar y gweithdrefnau a fydd yn cynorthwyo a hyrwyddo datblygiad y tair elfen allweddol dan sylw.

2. Proffil y Coleg

Cyd-destun

- 2.1** Mae'r Coleg yn cynnwys pedwar campws yn sgil uno colegau Pontypridd, Rhondda ac Aberdâr. Nod y Coleg yw gostwng ei stadau i dri champws ac mae wrthi ar hyn o bryd yn cael gwared ar gampws Pontypridd ac yn prynu tir ychwanegol yn ardal Nantgarw. Mae Cynulliad Cymru yn cynorthwyo'r prosiect cyfalaf gwerth £40miliwn drwy fuddsoddi £15.8 miliwn a'r ffynonellau buddsoddi eraill yw £12 miliwn o Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol a £6.5 miliwn gan WEFO (Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru).
- 2.2** Mae'r Coleg yn cyflogi 525 o staff a 273 ohonyn nhw'n staff addysgu. Nododd arolwg diweddar o staff bod gan 32% o'r staff academiaidd beth gwybodaeth o'r iaith Gymraeg.

- 2.3** Yn y Coleg mae 2400 o ddysgwyr llawn-amser a 12000 o ddysgwyr rhan-amser a dysgwyr Addysg Uwch. O'r rhain, mae 2166 o ymrestriadau yn y grŵp oed 16-19. Amcangyfrif bod tua 15% o ddysgwyr 16-19 oed yn siarad Cymraeg a llai na 10% yn y grŵp 19+ oed.

Cyd-destun Demograffig ac Economaidd

- 2.4** Mae Coleg Morgannwg yn gwasanaethu ardal awdurdod Rhondda Cynon Taf. Fe'i ffurfiwyd yn 1996 o ganlyniad i ad-drefnu llywodraeth leol. O fewn ei ffiniau, sy'n ymestyn o Fannau Brycheiniog yn y gogledd i gyrion Caerdydd yn y de, mae ystod o draddodiadau ieithyddol, diwylliannol a chymdeithasol.

- 2.5** Mae 231,946 o drigolion (Cyfrifiad 2001), y mae disgwyl i'r boblogaeth gynyddu i 238,000 erbyn 2011. Mae tystiolaeth Arsyllfa Dysgu a Sgiliau (Cymru) a ffynonellau eraill yn dangos:

- Mai Rhondda Cynon Taf (RhCT) yw'r ail awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru.
- Mai un o nodweddion poblogaeth RhCT yw bod ei chyfartaledd oed yn cynyddu; bydd yno 38,000 ychwanegol oed 65 a throsodd erbyn 2015.
- Nad oes gan un rhan o bump o'r boblogaeth weithiol unrhyw gymwysterau a llai na phumed ran sydd â chymwysterau NVQ lefel 4 ac uwch.
- Bod gan yr ardal un o'r poblogaethau uchaf o rieni sengl.
- Bod cyfraddau anweithgarwch economaidd RhCT (24%) yn parhau i fod yn uchel o'u cymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru.
- Bod cyfraddau diweithdra yn 8.1% (Mawrth 2010), yr ail uchaf yng Nghymru.
- Bod nifer sylweddol o drigolion RhCT (43,000) yn byw yn y 10 ward mwyaf difreintiedig yng Nghymru (18.6%).

2.6 Cyd-destun Ieithyddol

- Mae yna 27,946 (12.5%) o siaradwyr Cymraeg o fewn RhCT (Cyfrifiad 2001 – o'i gymharu â 20.8% sef cyfartaledd Cymru)
- O fewn y grŵp oed 3-15 oed, mae 29% yn siaradwyr Cymraeg a cheir 19% yn y grŵp oedran 16-24.
- Mae yna 13 ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg a 4 ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg.
- Ar yr aelwyd, mae 3,563 (7.7%) o siaradwyr Cymraeg o dan 18 yn byw gydag o leiaf un oedolyn sy'n siarad Cymraeg.
- Mae'r Gymraeg yn famiaith i 2.9% o blant cynradd cyfrwng Cymraeg yn RhCT.

- Mae 18.3% o ddisgyblion cynradd yr Awdurdod a 20.3% o ddisgyblion uwchradd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae 2.8% o'r disgyblion ar Ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

3. Gweithredu a Monitro / Cynllunio a Chyflenwi Gwasanaeth.

3.1 Gweithredu

3.1.1 Y Pennaeth Cynorthwyol sy'n gyfrifol am weithredu a monitro y Cynllun Iaith Gymraeg.

3.1.2 Bydd dau grŵp yn rhan o'r broses hon. Grŵp strategol fydd un ohonyn nhw, yn cynnwys aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli a'r Pennaeth Adnoddau Dynol (a ffurfiwyd yn ddiweddar ym mis Mai 2010) a grŵp staff yw'r llall (a ffurfiwyd ym mis Mawrth 2008). Mae'r grŵp staff yn cynnwys unigolion sydd â diddordeb mewn hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac addysg ddwyieithog.

3.1.3 Arweinir y grŵp hwn gan y Pennaeth Cynorthwyol. Byddan nhw'n canolbwyntio ar agweddau gweithredol y Cynllun a nhw fydd yn cynghori'r Uwch Dîm Rheoli yn unol â hynny drwy'r Pennaeth Cynorthwyol. Mae hyn wedi bod ar waith ers 2008 ac maen nhw'n cwrdd ddwywaith bob tymor. Ceir cofnodion o'r cyfarfodydd hyn ar allrwyd y Coleg.

Manylion cyswllt y person sy'n gyfrifol yw:

Hywel Vaughan
 Pennaeth Cynorthwyol
 Coleg Morgannwg
 Heol Cwmdâr
 Aberdâr
 Rhondda Cynon Taf
 CF44 8ST

Cyfeiriad e-bost – h.vaughan@morgannwg.ac.uk

Rhif Ffôn: 01685 887500

3.2 Trefniadau Gweinyddol

3.2.1 Bydd Cynllun Iaith Gymraeg y Coleg ar gael i staff a myfyrwyr yn ddwyieithog drwy wefan ac allrwyd y Coleg. Caiff y staff wybodaeth am ei ddatblygiadau drwy ei systemau briffio staff ymhob canolfan. (gweler Materion Staffio am ymrwymiad ychwanegol y Cynllun yr Iaith Gymraeg a

Rhaglen Sefydlu Staff). Yn ystod y digwyddiad diwethaf, amlinellwyd ymateb y Coleg i'r Strategaeth Addysg cyfrwng-Cymraeg.

- 3.2.2 Ar hyn o bryd, mae'r Coleg yn datblygu Llawlyfr Staff a fydd ar gael yn ddwyieithog yn ôl ei agenda Safonau Iechyd Corfforaethol. Bydd hwn ar gael yn y flwyddyn academaidd 2010/11.
- 3.2.3 Bydd y Pennaeth Cynorthwyol sy'n gyfrifol am y Cynllun yn datblygu perthynas waith gyda Bwrdd yr Iaith er mwyn sicrhau bod y Coleg yn llwyr ymwybodol o'i oblygiadau yn ôl y Ddeddf.
- 3.2.4 Yn gyfredol, mae'r Coleg yn ystyried goblygiadau'r ddogfen ymgynghorol gyhoeddus, 'Contractio allan o Wasanaeth Cyhoeddus a'r Iaith Gymraeg'. Bydd yn rhoi ei argymellion terfynol ar waith yn 2011.

3.3 Polisiau a Mentrau Newydd

- 3.3.1 Bydd y Coleg yn ymgynghori â Bwrdd yr Iaith ar unrhyw ddatblygiadau newydd a fyddai'n debygol o effeithio ar y Cynllun ac ni fydd yn newid cynnwys y Cynllun heb gytundeb blaenorol y Bwrdd. Bydd pob polisi a menter newydd yn gyson â'r cynllun ac ni fydd rhain yn ei danseilio.
- 3.3.2 Bydd y Coleg yn sicrhau bod datblygiadau newydd yn symud y Coleg yn nes at weithredu egwyddor cydraddoldeb ar bob cyfle.
- 3.3.3 Bydd y Coleg yn asesu goblygiadau ieithyddol unrhyw bolisi neu fenter newydd gyda golwg i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg lle bynnag fo'n bosibl.
- 3.3.4 Bydd y Coleg hefyd yn sicrhau y caiff pob mesur yn y Cynllun ei gymhwyso i bolisiau a mentrau newydd pan gân nhw eu gweithredu.

3.4 Cydymffurfiad Trydydd Parti

- 3.4.1 Mae'r Coleg yn gweithio mewn partneriaeth gyda chyrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Bydd y Coleg yn sicrhau y bydd, pan fydd partneriaeth yn datblygu, yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg.
- 3.4.2 Os mai'r Coleg yw arweinydd strategol ac ariannol partneriaeth, bydd yn sicrhau bod y ddarpariaeth gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith.

- 3.4.3 Os bydd y Coleg yn ymuno â phartneriaeth y mae corff arall yn ei harwain, bydd cyfraniad y Coleg yn cydymffurfio â'r cynllun a bydd y Coleg yn annog partion eraill i gydymffurfio.
- 3.4.4 Os bydd y Coleg yn bartner mewn consortiwm, bydd yn cymell y consortiwm i fabwysiadu polisi dwyieithog. Pan fydd yn gweithredu'n gyhoeddus yn enw'r consortiwm, bydd y Coleg yn gweithredu yn unol â'i Gynllun Iaith Gymraeg.

3.5 Materion Staffio

- 3.5.1 Mae'r Coleg wedi cynnal dau arolwg ieithyddol staff (08/09 and 09/10). Canfuwyd bod gan 32% o'r staff academiaidd beth gwybodaeth o'r Gymraeg. Yn seiliedig ar ei ganfyddiadau, mae'r Coleg wedi cynllunio cyfleoedd ychwanegol ar gyfer datblygu staff yn ystod 2010/11 a byddai hyn yn cynnwys cyrsiau siarad Cymraeg a chysiau ar lefel RhCA Lefel 1 a 2. Pwrpas y strategaeth yw galluogi'r Coleg i gynnal trosolwg gyffredinol o'i anghenion sgiliau ieithyddol a'r adnoddau anghenrheidiol ac i gydlynu gweithgareddau hyfforddi a recriwtio i gyflawni amcanion y Cynllun.
- 3.5.2 Bydd y Coleg yn monitro nifer y staff Cymraeg eu hiaith sydd eu hangen ac i weithredu os bydd y nifer yn disgyn yn is na'r lefel angenrheidiol.
- 3.5.3 Yn rhannol o ganlyniad i'w ganfyddiadau ac asesiad y Coleg ei hun o'n goblygiadau, darparodd y Coleg hyfforddiant ar gyfer staff rheng flaen drwy iaith ar Waith a gwblhawyd yn llwyddiannus ym Mis Mehefin 2010. Nawr, y bwriad yw darparu llwybr dilyniant ar gyfer yr holl staff drwy raglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a fydd yn cynnwys dosbarth siarad, Cymraeg Lefel 1 RhCA a Lefel 2 RhCA.
- 3.5.4 Anogir pob aelod o'r staff yn eu Hadolygiad Datblygiad Proffesiynol i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg. Bydd hyn yn sail i'n rhaglen DPP ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.
- 3.5.5 Mae'r Coleg yn parhau i gefnogi'r cynllun sabothol a hyd yn hyn rydyn ni wedi noddi 5 aelod o staff. Ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2010/11, mae'r Coleg wedi cytuno i ryddhau dau aelod o staff.
- 3.5.6 Bydd Cynllun yr iaith Gymraeg yn dal i gael ei gynnwys yn rhaglen sefydlu staff y Coleg a sefydlir gweithdrefnau ysgrifenedig er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran y Cynllun.

3.5.7 Hysbysebair pob swydd newydd yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg yn y wasg. Bydd hyn hefyd digwydd pan hysbysebair swyddi ar y wefan. Dynodir bod Cymraeg yn ddymunol ar gyfer pob swydd. Yn gyfredol, nid oes unrhyw swydd lle penderfynir bod Cymraeg yn hanfodol er bod gan reolwyr priodol y dewis i ofyn am hyn. Os digwydd hyn, yna hysbysebair yn y Gymraeg yn unig gyda throednodyn yn Saesneg.

3.6 Monitro ac Adolygu

3.6.1 Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn adolygu'r Cynllun yn gyson drwy'r Pennaeth Cynorthwyol yn y Datganiad Gweithredu Blynyddol a gaiff ei ddiweddarau'n fisol a thrwy'r Cofrestr Risg Strategol. Yn eu tro, caiff y rhain eu monitro gan wahanol bwyllgorau'r Coleg gan gynnwys Bwrdd y Gorfforaeth. Enwir pob person sydd â chyfrifoldeb am weithredu pob nod.

3.6.2 Bydd y grŵp staff, dan arweiniad y Pennaeth Cynorthwyol, hefyd yn monitro'r Cynllun ac yn gyfrifol am lunio adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith. Mae'r Coleg wedi ymrwymo i ysgrifennu Adroddiad Monitro blynyddol ar gyfer Bwrdd yr Iaith. Yn y pen draw, Corff Llywodraethol y Coleg fydd yn cymeradwyo'r Cynllun, a'r corff hwnnw fydd yn derbyn adroddiad cydymffurfio blynyddol i sicrhau'r canlynol:

- Bod y Coleg yn cydymffurfio â'r Cynllun.
- Asesu a yw'n cael ei rheoli'n briodol.
- Asesu ac ystyried y themâu allweddol wrth ei weithredu gan gynnwys datblygiad cwricwlwm cyfrwng Cymraeg/dwyieithog.
- Bod y Cynllun Gweithredu'n cael ei weithredu.
- Yn cydnabod unrhyw wendid sylfaenol a sefydlu cynllun gweithredu a fydd yn cynnwys amserlen i ddelio â nhw. Anfonir copi o hyn at Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

3.7 Ansawdd

3.7.1 Mae'r Coleg wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o'r un ansawdd uchel yn y naill iaith a'r llall. Wrth asesu a mesur safonau ac effeithiolrwydd gwasanaethau a'r darpariaethau yn y Gymraeg, bydd y Coleg yn defnyddio'r un 'dangosyddion perfformiad' â'r hyn a ddefnyddir ar gyfer ei wasanaethau a'i ddarpariaethau yn y Saesneg.

3.7.2 Mae'r Coleg yn cynllunio gweithredu'r Fframwaith Arolygu newydd (Medi 2010). Elfen arwyddocaol Cwestiwn Allweddol 1 yw Adran 1.1.5, lle gofynnir i golegau ac arolygwyr a oes cynnydd priodol yn cael ei wneud o ran yr iaith Gymraeg. Mae'r staff priodol yn ymwybodol o hyn ac yn cael gweld y ddogfennaeth. Fel rhan o'r broses hunan-asesu, adolygir yr

agwedd hon hefyd ar lefel y cwricwlwm. Drwy ei Gynllun Gweithredu Gwella Ansawdd ar gyfer Estyn, mae'r Coleg wedi ymrwymo i ddatblygu rhagor o gyfleoedd i wella sgiliau ieithyddol Cymraeg a dwyieithog y myfyrwyr. Bydd yn monitro pob cais gan fyfyrwyr ar gyfer addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac ar gyfer adnoddau addysgu dwyieithog. Mae'r Coleg wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gyda cholegau eraill i gynyddu cyfleoedd cwricwlwm Cymraeg a dwyieithog (Coleg Merthyr Tudful).

3.8 Sylwadau ac Achwynion

- 3.8.1 Mae gan y Coleg weithdrefn fanwl lle cofnodir pob achwyniad ac ymatebir i bob achwyniad o fewn 5 niwrnod gwaith. Bydd yn parhau i fonitro barn siaradwyr Cymraeg a'r rhai sydd ddim yn siarad Cymraeg.
- 3.8.2 Bydd y Coleg yn croesawu ac yn cofnodi awgrymiadau ar sut i wella'r Cynllun.

3.9 Cyhoeddi Gwybodaeth am y Cynllun a Rhoi Cyhoeddusrwydd iddo

- 3.9.1 Mae'r Coleg yn integreiddio swyddogaethau gweinyddol Cynllun yr Iaith Gymraeg yn ei weithdrefnau gweithredu safonau.
- 3.9.2 Mae'r Cynllun ar gael i staff, myfyrwyr a'r cyhoedd ar wefan ac allrwyd y Coleg. Bydd y Coleg hefyd yn hyrwyddo'r Cynllun drwy'r canlynol:
- Posterï a thafleuni yn hysbysebu gweithgareddau'r Coleg i gynnwys cyfeiriad at y Cynllun Iaith.
 - Datganiadau ac erthyglau i'r wasg a'r cyfryngau.
 - Cynhyrchu crynodeb o'r Cynllun ar gyfer yr holl staff, fydd ar gael yn electronig ac ar gopïau papur.
 - Dosbarthu copïau'r Cynllun i sefydliadau eraill, i gontractwyr ac asiantaethau eraill y mae gan y Coleg gontractau gyda nhw, fel eu bod yn ymwybodol o'r angen i weithredu yn unol â gofynion y Cynllun.
 - Caiff datblygiadau o ran yr iaith Gymraeg ei adrodd a'i monitro yn y Datganiad Gweithredu Blynyddol a'r Cofrestr Risg Strategol. Enwir personau sydd â'r prif gyfrifoldeb dros weithredu pob nod.

4. Datblygu Ethos Cymraeg yn y Coleg (Haen 1 o'r Strategaeth)

- 4.1.1 Mae'r Coleg yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg ar sail statws cyfartal.

- 4.1.2 Bydd y Coleg yn sefydlu bas data o'r bobl neu'r sefydliadau hynny sy'n dymuno cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- 4.1.3 Hefyd, caiff negeseuon electronig ac ymholiadau ar yr allrwyd eu trin yn gyfartal. Ni fydd mwy o oedi wrth ymateb yn y Gymraeg nag a geir gydag ymatebion yn y Saesneg.
- 4.1.4 Mae croeso i unrhyw un ddewis siarad Saesneg neu Gymraeg wrth ffonio Coleg Morgannwg. Bydd staff rheng flaen yn ymateb gyda chyfarfodiad dwyieithog byr.
- 4.1.5 Os dymunir parhau â'r sgwrs yn Gymraeg, byddai'r Coleg yn ceisio cymorth ein siaradwyr Cymraeg dynodedig. Os nad oes siaradwyr Cymraeg ar gael, eglurir y sefyllfa i'r unigolyn a gaiff gynnig wedyn i barhau â'r sgwrs yn Saesneg neu gyflwyno ymholiad ysgrifenedig yn y Gymraeg a derbyn ateb ysgrifenedig yn y Gymraeg. Parheir i fonitro a chofnodi nifer y galwadau drwy gyfrwng y Gymraeg i fod yn sail i gynllunio darpariaeth yn y dyfodol.
- 4.1.6 Er mwyn hwyluso'r trefniadau uchod, bydd y Coleg yn llunio rhestr o aelodau staff gweinyddol ac academiaidd sy'n gallu delio ag ymholiadau dros y ffôn yn y Gymraeg. Bydd y rhestr yn cael ei chynnwys mewn cyhoeddiadau a gynhyrchir yn ganolog ac yng nghyfeiriadur ffôn mewnol y Coleg.
- 4.1.7 Mae negeseuon ar beiriant ateb y Coleg yn ddwyieithog a bwriedir bod gan holl beiriannau ateb o fewn y Coleg yr un adnodd.
- 4.1.8 Gellir trefnu adnoddau dwyieithog ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus a bydd cofnodion y cyfarfodydd hyn ar gael yn Gymraeg os dymunir.
- 4.1.9 Mae uwch reolwyr yn dangos eu hymrwymiad i hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy gyflwyniadau Cymraeg eu hiaith mewn digwyddiadau ffurfiol ac anffurfiol sy'n cynnwys noson wobrwyo flynyddol myfyrwyr a sesiynau briffio staff. Bydd y cyflwyno yn y digwyddiad gwobrwyo yn ddwyieithog.
- 4.1.10 Un o brif nodau'r Grŵp Strategol yw'r dasg o flaenoriaethu ein rhaglen o gyfieithu dogfennau allweddol y Coleg – Y Polisi Cynhyrchu Dogfennau – ac felly'n sicrhau y gellir cynllunio a dyrannu adnoddau ar gyfer yr ymarfer hwn.
- 4.1.11 Drwy'r grŵp hwn, bydd y Coleg yn sicrhau bod ei holl bolisiau ar gael yn ddwyieithog, drwy raglen gyflwyno raddol, erbyn 2012. Fodd bynnag, gellir

gofyn am bob polisi yn ddwyieithog ac ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i gais o'r fath.

4.1.12 Bydd pob dogfen gyhoeddus sy'n cyfeirio at ddysgwyr, ar y wefan ar gael yn y Gymraeg erbyn 2012 ond dydy hyn ddim yn cynnwys deunydd cwricwlaidd, oni bai y gofynnir amdano.

4.2 Wyneb Cyhoeddus y Coleg

4.2.1 Mae Coleg Morgannwg yn hyrwyddo'i hunaniaeth gorfforaethol a'i wyneb cyhoeddus yn ddwyieithog drwy ei enw, ei bapur pennawd a'i gardiau busnes. Bydd y Coleg yn sicrhau y caiff staff help i arwyddo'u e-bost yn ddwyieithog ar y systemau. Bydd hyn hefyd yn cynnwys y wybodaeth sy'n gwahodd y cyhoedd i gyfathrebu yn Gymraeg.

4.2.2 Mae'r Coleg yn gosod arwyddion dwyieithog ymhob un o'i ganolfannau ac ar hyn o bryd mae'n sicrhau dull cyson o fynd ati i ddelio â hyn drwy gwblhau asesiad o'i arwyddion mewnol. Delir yn syth ag unrhyw gamgymeriad mewn arwydd dwyieithog neu ddiffyg arwyddion dwyieithog er mwyn sicrhau bod pob arwydd yn gywir erbyn 2011/12.

4.2.3 Bydd maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y geiriau'r un fath yn y naill iaith a'r llall.

4.2.4 Yn yr un modd, os dangosir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân bydd maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y geiriau'r un fath yn y naill iaith a'r llall.

4.2.5 Yn ddiweddar, datblygwyd gwefan y Coleg er mwyn sicrhau ei fod ar gael yn ddwyieithog. Bydd y dewis o iaith a'r llywio o un iaith i'r llall yn glir. Bydd y Coleg yn sicrhau bod yr holl wybodaeth a roddir ar y wefan, yn ystod oes y cynllun, ar gael yn ddwyieithog.

4.2.6 Mae gan y Coleg Ddogfen Bolisi sy'n berthnasol i'r holl ddeunyddiau a gynhyrchir. Ymatebir i bob cais am ddeunyddiau yn Gymraeg yn yr un modd â cheisiadau am ddeunyddiau a gynhyrchir yn Saesneg gan gynnwys terfynau amser a phrisio. Hefyd, bydd neges ar bob fersiwn bod y ddogfen ar gael yn yr iaith arall.

4.2.7 Bydd y Coleg yn sicrhau bod ymgynghorwyr, cynllunwyr ac argraffwyr yn derbyn cyfarwyddyd ar sut i ddelio â chyhoeddiadau dwyieithog.

4.2.8 Bydd y Coleg yn datblygu bas data o'r sefydliadau hynny sy'n gofyn am ohebiaeth ddwyieithog.

4.2.9 Cynhyrchir pob deunydd hysbysebu yn ddwyieithog o Chwefror 2011. Ymhlith yr enghreifftiau cyfredol mae'r defnydd o hysbysebion Cymraeg ar fsys, bwrdd biliau a matiau cwrw. Cynhyrchwyd y rheiny yn ddwyieithog ar wahân i'r ymgyrchoedd bysys a byrddau biliau a gafodd eu hysbysebu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wahân.

4.2.10 **Hysbysiadau i'r Wasg**

Rheolir pob hysbysiad i'r wasg gan gwmni allanol. Bydd y Coleg yn eu hatgoffa am yr angen i weithredu yn unol â gofynion y Cynllun.

4.3 **Datblygu Ethos Cymraeg o fewn y Cwricwlwm**

4.3.1 Erbyn hyn, mae pob myfyriwr llawn amser yn astudio rhaglen bagloriaeth Cymru lle hyrwyddir diwylliant Cymru.

4.3.2 Er mwyn symud ymlaen i gynyddu addysg ddwyieithog a gwasanaethau hyfforddi, mae'r Coleg ar hyn o bryd, yn darparu lefelau priodol o Gymraeg ar gyfer unrhyw fyfyrwr sy'n dymuno hynny drwy gynnig yr elfennau cwricwlaidd canlynol:

- Derbynnir gwaith ysgrifenedig yn Gymraeg. Anogir myfyrwyr i ddilyn yr opsiwn hwn os dyna'u dewis.
- Cynigir elfennau o gwrs neu fodiwl drwy gyfrwng y Gymraeg – gweler Atodiad 1.
- Profiad gwaith mewn lleoliad Cymraeg ei iaith yn ôl y galw ac argaeledd y cyfleoedd.
- Darparu nodiadau dwyieithog yn ôl y galw. Caiff y rhain eu monitro drwy'r Cynllun Gweithredu.
- Aseidiadau diagnostig yn Gymraeg.
- Cyflenwir Cymraeg i Oedolion gan Brifysgol Morgannwg a chynhelir 14 o sesiynau ar ein pedwar campws.

4.3.3 Bydd y Coleg yn sicrhau bod myfyrwyr Cymraeg eu hiaith gydag anghenion addysgol arbennig yn cael yr un cyfleoedd.

4.3.4 Anogir myfyrwyr newydd sydd wedi'u canfod, drwy'r ffurflenni ymrestru, eu bod yn siaradwyr Cymraeg i fynychu digwyddiad Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn ystod yr wythnos sefydlu. Mae hyn yn digwydd ymhob canolfan a bydd y ffocws ar bwysleisio gwerth meddu ar sgiliau Cymraeg neu sgiliau dwyieithog o fewn hyfforddiant galwedigaethol. Atgyfnerthir hyn yn sesiynau tiwtorial y cwrs.

4.3.5 Bydd y Coleg yn cynnal digwyddiadau ymhob blwyddyn galendr yn ystod oes y cynllun ar gyfer staff a myfyrwyr Cymraeg eu hiaith fel y gallan nhw sefydlu agenda gweithredu pellach. Caiff adroddiad am y digwyddiadau hyn eu cynnwys yn yr adroddiad monitro blynyddol a gyflwynir i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

5. Datblygu Sgiliau Dwyieithog i Ychwanegu at y Ddarpariaeth Cyfrwng Saesneg (Haen 2 o'r Strategaeth)

5.1.1 Mae'r Coleg wrthi'n mabwysiadu Strategaeth Ddwyieithog Colegau Cymru ac mae'n mapio'i gynnydd yn erbyn tair haen y Strategaeth. Mae Cynllun Gweithredu'n bodoli ar gyfer hyn ac ymhlith blaenoriaethau Haen 3 mae hyrwyddo'r cynllun sabothol i gynyddu gallu'r cwricwlwm i gyflenwi darpariaeth Gymraeg, cydweithredu gydag ysgolion lleol i ystyried y potensial o ddefnyddio'u staff Cymraeg eu hiaith i addysgu ar gyrsiau Cymraeg a gwneud y gorau o alluoedd eu staff ei hun i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff adroddiad ar y cynnydd a wneir ar y pwyntiau hyn ei gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

5.1.2 Mae'r Coleg yn cydnabod ac wedi ymrwymo i Nodau Strategol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg sef:

- Cynyddu cyfleoedd uchel eu hansawdd ar gyfer astudio neu hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Sicrhau dilyniant ieithyddol o gyfnod addysg statudol i addysg ôl-16 ac opsiynau ôl-18.
- Annog cynlluniau ar gyfer trawsnewid

5.2 Cynllunio a Rheoli'r Cwricwlwm

5.2.1 Adolygir cwricwlwm y Coleg yn flynyddol i gwrdd â'r Targedau Credyd Cyfwerth (CEU) a osodwyd gan y DfES yn sgil cyflwyno'r cynllun Datblygu Blynyddol Dros Dro.

5.2.2 Hefyd, ystyrir y ddarpariaeth gyfredol a'r newid a allai ddigwydd er mwyn asesu i ba raddau y mae'n cwrdd â phrif agendâu polisi strategol Llywodraeth y Cynulliad a'r DfES gan gynnwys Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

5.2.3 Bydd y Coleg, drwy ei Reolwyr Cwricwlwm a'r Pennaeth Cynorthwyol sy'n gyfrifol am yr iaith Gymraeg yn parhau i ddynodi unedau ar gyfer datblygiadau dwyieithog o fewn cyrsiau yn enwedig yn y meysydd â blaenoriaeth.

5.2.4 Mae'r Coleg yn cydnabod y ffaith bod gan holl sefydliadau'r sector cyhoeddus eu cynllun laith Gymraeg ac mae gofyn iddyn nhw ddarparu gwasanaeth dwyieithog. Mae hefyd yn cydnabod bod y gofyniad hwn wedi arwain at gynnydd yn y galw am sgiliau dwyieithog yng Nghymru yn y diwydiannau gwasanaeth megis lechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant, Addysg, Busnes a Gweinyddu, Lletygarwch ac Arlwyo. Bydd y Coleg yn rhoi blaenoriaeth i feysydd lechyd a Gofal Cymdeithasol ac Arlwyo ar gyfer datblygu dwyieithrwydd yn ystod oes y Cynllun hwn a bydd yn cynyddu o 10% yn y ddarpariaeth gyfredol erbyn 2013. Caiff adroddiad ar y cynnydd a wneir ei gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol a gyflwynir i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

5.3 Y Ddarpariaeth Gyfredol yn y Coleg

5.3.1 Mae'r cyrsiau canlynol wedi ymgorffori datblygiad yr iaith Gymraeg (Gweler Atodiad 1).

5.3.2 Yn bresennol, yr hyn sy'n digwydd yn yr haen hon yw:

- Rhaglen datblygiad staff ar gyfer 2010/11 sy'n cynnwys opsiynau Lefel 1 a 2 y model iaith ar Waith. Bydd hwn am ddim ac yn digwydd yn ystod y diwrnod gwaith.
- Mae hwn yn cynnig dilyniant i'r staff rheng flaen hynny sydd eisoes wedi cwblhau opsiwn lefel 1 yn 09/10.
- Yna, gall y staff sydd â digon o hyder ystyried cynnig modiwlau dwyieithog yn eu meysydd galwedigaethol priodol.
- Symud ymlaen o gynnal digwyddiadau ar gyfer myfyrwyr Cymraeg yn ystod wythnosau sefydlu i gynllunio digwyddiadau bob tymor a darparu tiwtorialau cyfrwng Cymraeg. Gall data MIS (System Gwybodaeth Reoli) y Coleg ddynodi myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg.

6. Datblygu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg neu Ddwyieithog ar gyfer Dysgwyr Ôl-14

6.1.1 Mae angen i'r Coleg, sydd yn ystyried ei fod yn Haen 2 trefn ddosbarthu Colegau Cymru, symud ymlaen drwy'r cam hwn.

6.1.2 Bydd y Coleg yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd dwyieithog yn enwedig yn y meysydd â blaenoriaeth sef lechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant ac Arlwyo. Mesurir y rhain drwy gynyddu'r targed 10% o'r ddarpariaeth gyfredol o gyfleoedd dwyieithog yn y meysydd hyn erbyn 2013. Caiff adroddiad ar y cynnydd a wneir ei gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol a gyflwynir i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

- 6.1.3 Ar hyn o bryd, y gyfadran Gofal sydd wedi datblygu'r ystod ehangaf o gyfleoedd dwyieithog, lle hefyd darperir profiadau gwaith ar gyfer siaradwyr Cymraeg – CACHE lefel 2 a 3 (gweler Atodiad 1).
- 6.1.4 Bydd y Coleg yn datblygu cynllun mentora ar gyfer myfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn ystod y flwyddyn academaidd 2011/2012. Er y gellir cyflwyno pob asesiad a'u marcio yn y Gymraeg, ynghyd ag asesu myfyrwyr ar y cychwyn cyntaf yn y Gymraeg, mae datblygiadau pellach megis gofal bugeiliol a chynghor yn dibynnu ar lefel sgiliau ieithyddol y staff drwyddi draw. Bydd y Coleg yn cynnig cymorth ychwanegol drwy ei system fentora i'r staff hynny sy'n gofyn am gyfarwyddyd pellach er mwyn datblygu cyfleoedd addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu ddwyieithog. Caiff adroddiad ar hyn ei gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol a gyflwynir i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.
- 6.1.5 Bydd y Coleg yn adolygu pob swydd wag newydd er mwyn cynyddu nifer y swyddi lle barnir bod y Gymraeg yn 'hanfodol' yn enwedig yn y meysydd a nodwyd â blaenoriaeth, ond mae trosiant staff yng Ngholeg Morgannwg yn isel. Caiff adroddiad ar hyn ei gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol a gyflwynir i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.
- 6.1.6 Yn sgil cynnydd yng nghyfleoedd dwyieithog ein cwricwlwm byddai adnoddau dysgu dwyieithog yn cael eu darparu. Yn rhaglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus 2010/11, bydd unedau RhCA yn Gymraeg ar lefel 1 a 2 ar gael i'r staff ac anogir staff yn y meysydd â blaenoriaeth i fanteisio ar hyn. Caiff adroddiad ar y cynnydd a wneir ei gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol a gyflwynir i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

6.2 Cydweithredu a Phartneriaethau

- 6.2.1 Mae'r Coleg yn rhan o ystod o bartneriaethau sy'n hybu datblygiad y ddarpariaeth yn yr ardal a bu'n aelod o Fwrdd Partneriaeth Bro Dysg yn gyfrifol am addysg cyn ac ôl-16 oed yn Rhondda Cynon Taf.
- 6.2.2 Mae'n cydweithio'n agos gyda RhCT a'r 19 ysgol uwchradd drwy'r pedwar consortiwm 14-19 i ddatblygu rhaglenni sy'n gydweithiol.
- 6.2.3 Atgyfnerthir cysylltiadau gyda chyflogwyr ymhellach drwy'r Uned Ddatblygu Busnes a sefydlwyd yn y Coleg.
- 6.2.4 Bydd y Coleg, drwy'r Uned Ddatblygu Busnes, sydd newydd ei sefydlu, yn ystyried yr angen am ddarpariaeth ddwyieithog gyda chyflogwyr a lle bynnag posibl, yn codi ymwybyddiaeth cyflogwyr o fanteision meddu ar sgiliau dwyieithog yng Nghymru. Caiff adroddiad ar y canfyddiadau ei gynnwys yn ei adroddiad mewnol blynyddol a bydd unrhyw argymhellion a

wneir yn rhan o'r cynllun gweithredu. Caiff hwn hefyd ei gynnwys yn Adroddiad Monitro Blynyddol y Coleg a gyflwynir i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

- 6.2.5 Yn y gorffennol, mae cysylltiadau'r Coleg wedi adlewyrchu llwybrau galwedigaethol Peirianeg, Gweinyddu Busnes ac Adeiladu. Ym maes Peirianeg, mae'r Coleg wedi datblygu partneriaeth ragorol gyda GEAES, cyflogwr pwysig yn yr ardal. Bydd y Coleg, lle bo'n briodol, yn codi ymwybyddiaeth o fanteision datblygu sgiliau dwyieithog o fewn cyflogaeth.
- 6.2.6 Yn gyfredol, mae gan y Coleg gysylltiad gyda'r sefydliadau canlynol sy'n ymwneud â datblygiad yr iaith Gymraeg. Bydd y Coleg hefyd yn cyfrannu at fentrau'r sector gyfan i hyrwyddo'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
- Grŵp polisi AB y De Ddwyrain ar yr Iaith Gymraeg. Ymhlith uchelgeisiau'r grŵp mae datblygu'r arfer o rannu staff ac adnoddau deunydd dysgu er mwyn hwyluso a hyrwyddo'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
 - Ysgolion cyfrwng Cymraeg drwy gonsortia 14-19
 - Sgiliaith – Mae'r Coleg yn aelod gweithredol o Sgiliaith ac yn cael ei gynrychioli ymhob un o'i gyfarfodydd. Mae ei argymhellion yn sail i'n cynlluniau strategol a gweithredol o ran Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ddwyieithog.
 - Anogir tiwtoriaid Cymraeg eu hiaith i fynychu cyfarfodydd panel pwnc Sgiliaith. Bydd y cyfarfodydd hyn yn rhoi cyfle iddyn nhw rwydweithio gyda Cholegau AB eraill a gweithio at y nod o rannu adnoddau dwyieithog.
- 6.2.7 Bydd y Coleg yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i sicrhau bod myfyrwyr yn cael gwybod am fanteision meddu ar sgiliau dwyieithog yn y gweithle a'r angen am sgiliau galwedigaethol. Bydd y Coleg yn darparu cyngor i fyfyrwyr ar y cyfleoedd i symud ymlaen i Addysg Uwch a hyfforddiant pellach drwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff adroddiad ar y cynnydd a wneir ar hyn ei gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol a gyflwynir i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.
- 6.2.8 Os bydd y Coleg yn ymuno â phartneriaeth neu'n ffurfio partneriaeth, bydd yn gofyn i'r darpar bartneriaid am eu cynllun iaith, eu polisiau iaith neu'r modd y byddan nhw'n gweithredu'n ddwyieithog. O fewn unrhyw bartneriaeth, bydd y Coleg yn cynnig cyngor a chymorth i'r sefydliadau partner eraill.

7. Amserlen a Chynllun Gweithredu

- 7.1** Bydd y Cynllun Iaith Gymraeg yn delio â chyfnod o dair blynedd o'r flwyddyn academaidd yn cychwyn ar y dyddiad y caiff ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Yn amgaaedig fel atodiad i'r Cynllun hwn, ceir cynllun gweithredu sy'n dangos targedau a nodwyd, y staff sy'n gyfrifol am eu gweithredu a'r cynnydd a wneir o fewn yr amser y cytunwyd arno. Bydd gweithredu'r cynllun yn cael ei fesur yn erbyn y cynllun gweithredu hwn a'r amserlen.

Bydd y Coleg yn rhoi'r Cynllun ar waith o'r dyddiad y caiff ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

8. Atodiad 1

Elfennau penodol cyrsiau a gynnigir trwy gyfrwng y Gymraeg.

- Mae pob myfyriwr llawn amser nawr yn astudio Bagloriaeth Cymru a chyflenwyd 14 o sesiynau iaith Gymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg fel elfen ieithyddol y cwrs.
- Ymhlith prif gymwysterau cwricwlwm Iechyd a Gofal Cymdeithasol mae dwy uned ar bymtheg yn cynnwys addysgu dwyieithog unedau RhCA sy'n cynnwys:
- Cyflwyniad i'r iaith Gymraeg (Diploma lefel 2 Cache a Diploma mewn Gofal Plant ac Addysg Blwyddyn 2)
- Cyflwyniad i'r iaith Gymraeg a Chymru (Lefel 2 Cache a Diploma mewn Gofal Plant ac Addysg)
- Helpu Plentyn gyda'r Gymraeg (Lefel 2 Cache, Diploma a Thystysgrif mewn Gofal Plant ac Addysg)
- Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru (Porth i gyrsiau Gweinyddu Busnes)

Gweithredu a Monitro / Cynllunio a Chyflenwi Gwasanaeth				
Thema	Gweithgaredd penodol	Targed / Tystiolaeth	Cyfrifoldeb	Dyddiad Cyflawni
<ul style="list-style-type: none"> • Cyfrifoldebau dros Weithredu a Monitro • Trefniadau Gweinyddol y Cynllun • Polisiâu a Mentrau Newydd • Cydymffurfriad Trydydd Parti • Materion Staffio – gan gynnwys recriwtio / hyfforddi / gwybodaeth am sgiliau ieithyddol y staff • Prosesau Monitro ac Adolygu • Ansawdd • Sylwadau ac Achwynion • Cyhoeddi Gwybodaeth am y Cynllun a Rhoi Cyhoeddusrwydd iddo 	<ol style="list-style-type: none"> 1. Bydd y Coleg yn sicrhau bod y trefniadau a nodwyd yn y cynllun yn cael eu cymeradwyo ar y lefel uchaf a bod holl awdurdod y Coleg tu cefn iddyn nhw. 2. Bydd y Coleg yn sicrhau bod ei staff yn gyfarwydd â'r cynllun 3. Bydd y Coleg yn integreiddio swyddogaethau gweinyddol sy'n gysylltiedig â Chynllun yr Iaith Gymraeg yn ei weithdrefnau gweinyddol. 4. Os bydd angen gwaith cyfieithu, bydd y Coleg yn defnyddio cyfieithwyr gyda chymwysterau dilys neu asiantaethau cyfieithu cymeradwy 5. Bydd y Coleg yn sicrhau y bydd ymgynghorwyr neu aelodau staff sy'n gyfrifol am lunio neu ddiweddarau polisi yn ymwybodol o'r Cynllun Iaith ac am gyfrifoldebau'r Coleg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 6. Bydd y Coleg yn parhau i sicrhau bod pob mesur yn y cynllun yn cael ei gymhwyso at bolisiau a mentrau newydd neu rai sy'n cael eu diweddarau wrth eu rhoi ar waith. 7. Bydd pob cytundeb a threfniant i sefydliadau allanol ddarparu gwasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru ar ei ran yn cydymffurfio'n llwyr â thelerau a gofynion y Cynllun hwn. 8. Bydd y Coleg yn Adolygu'r Cynllun yn fisol drwy'r Datganiad Gweithredu Blynyddol drwy'r Pennaeth Cynorthwyol. 9. Bydd Bwrdd Llywodraethol y Coleg yn parhau i dderbyn adroddiad cydymffurfio blynyddol 10. Yn ystod trydedd flwyddyn y Cynllun, bydd y Coleg yn paratoi adroddiad gwerthuso cynhwysfawr a fydd yn asesu ac arfarnu perfformiad gweithredu'r Cynllun o'i gyfnod cychwynnol. 11. Bydd y Coleg yn cofnodi achwynion ac yn ymateb iddyn nhw o fewn 5 niwrnod gwaith a bydd yn parhau i fonitro barn siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg. 12. Bydd y Coleg yn croesawu a chofnodi awgrymiadau ar sut i 			

	<p>wella'r cynllun.</p> <p>13. Bydd y Coleg yn datgan ei ymrwymiad i sicrhau safonau ieithyddol cyfartal rhwng y ddarpariaeth Gymraeg a'r ddarpariaeth Saesneg yn ei gynlluniau corfforaethol, yn yr adroddiad blynyddol, ei brosbectysau a'i lenyddiaeth hyrwyddo.</p> <p>14. Mae'r Coleg wedi ymrwymo i osod safonau penodol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg ar draws pob safle o'i eiddo pan fo'n darparu gwasanaethau sy'n delio â'r cyhoedd.</p> <p>15. Bydd y Coleg yn sicrhau cyhoeddusrwydd i'w Gynllun Iaith Gymraeg ymhlith y cyhoedd.</p>			
--	---	--	--	--

Haen 1 Datblygu ethos Cymraeg yn y coleg				
Thema	Gweithgaredd penodol	Targed / Tystiolaeth	Cyfrifoldeb	Dyddiad Cyflawni
1.1 Cynyddu defnydd ac effaith Cymraeg gweledol/ysgrifenedig ar ddysgwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol	1.1.1. Cynnal y defnydd gweledol cyhoeddus a chorfforaethol o'r Gymraeg yn ôl gofynion y Cynllun Iaith. Hyrwyddo hunaniaeth gorfforaethol a gwedd gyhoeddus y Coleg yn ddwyieithog drwy'i enw, papur ysgrifennu a'i gardiau busnes. Bydd yr holl arwyddion cyhoeddus o gwmpas y Coleg ac yn fewnol yn y Coleg yn ddwyieithog a'r ddwy iaith yn gyfartal o ran fformat, maint, eglurder ac amlygrwydd ac wedi eu monitro drwy'r stadau. Sicrhau bod y campws newydd yn cydymffurfio o ran hunaniaeth gorfforaethol/arwyddion ayb. Mae'r Coleg yn gosod arwyddion dwyieithog ymhob un o'i ganolfannau ac ar hyn o bryd mae wrthi'n sicrhau safonau cyson o wneud hyn drwy gwblhau asesiad o'i arwyddion mewnol. Delir ag unrhyw ddiffyg arwyddion dwyieithog neu gamgymeriad ynddyn nhw yn syth er mwyn sicrhau bod pob arwydd yn fanwl gywir erbyn 2011/12.			
	1.1.2. Bydd y Coleg yn sicrhau y caiff staff gymorth i osod llofnodion e-bost dwyieithog ar eu systemau. Bydd hyn hefyd yn cynnwys y wybodaeth yn gwahodd y cyhoedd i gyfathrebu yn y Gymraeg.			
	1.1.3. Cydymffurfio â gofynion "Contractio allan o Wasanaethau Cyhoeddus" a'r iaith Gymraeg.			
	1.1.4.			

	<p>Cynnal argaeledd deunydd cyhoeddusrwydd a deunydd hyrwyddo yn y Gymraeg a'r Saesneg; gan grybwyll yn benodol gyfleoedd Cymraeg mewn prosiectws ac ystyried a allai dysgwyr presennol neu ddarpar ddysgwyr gael y wybodaeth hon mewn mannau cyswllt cychwynnol eraill; hysbysebu manteision meddu ar sgiliau Cymraeg yn y farchnad waith yn lleol a chenedlaethol.</p>			
	<p>1.1.5.</p> <p>Pob polisi i fod yn ddwyieithog drwy raglen raddol erbyn 2012. Hyd hynny, gellir gofyn am bob polisi yn ddwyieithog ac ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i'r cyfryw geisiadau.</p>			
	<p>1.1.6.</p> <p>Ymatebir i gais am ddeunydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr un modd â chais am unrhyw ddogfen yn y Saesneg gan gynnwys dedleins a phrisio. Yn ogystal, bydd neges ar bob fersiwn yn datgan bod y ddogfen dan sylw ar gael yn yr iaith arall hefyd.</p>			
	<p>1.1.7.</p> <p>Cynnal gwefan ddwyieithog a sicrhau systemau i gynnal pob diweddariad yn y ddwy iaith.</p> <p>Sicrhau bod yr holl wybodaeth ar y wefan o fewn oes y cynllun ar gael yn ddwyieithog.</p> <p>Bydd pob dogfen gyhoeddus sy'n cyfeirio at ddysgwyr, ar y wefan, ar gael yn Gymraeg erbyn 2012 ond ni fydd hyn yn cynnwys deunydd cwricwlwm, onibai y gofynnir amdano.</p>			
	<p>1.1.8.</p> <p>Bydd y Coleg yn sicrhau bod ymgynghorwyr, cynllunwyr ac argraffwyr yn derbyn cyfarwyddyd ar sut i ddelio â chyhoeddiadau dwyieithog. Rheolir pob hysbysiad i'r wasg gan gwmni allanol. Bydd y Coleg yn eu hatgoffa</p>			

	o'r angen i gydweithredu yn unol â gofynion y Cynllun.			
	<p>1.1.9.</p> <p>Cynhyrchir pob deunydd hysbysebu a phob ymgyrch yn ddwyieithog o fis Chwefror 2011. Ymhlith yr enghreifftiau hyd yn hyn, mae'r defnydd o hysbysebion yn y Gymraeg ar fysics, byrddau biliau a matiau cwrw. Cynhyrchwyd y rheiny yn ddwyieithog ar wahân i hysbysebion ar gyfer ymgyrchoedd bysys a byrddau-ochr-ffordd a gafodd eu hysbysebu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wahân.</p>			
	<p>1.1.10.</p> <p>Mae'r Coleg yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd.</p> <p>Bydd y Coleg yn sefydlu bas data o'r bobl neu'r sefydliadau hynny sy'n dymuno gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Caiff llythyron electronig ac ymholiadau ar yr allrwyd eu trin yn gyfartal hefyd. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb yn y Gymraeg o'i gymharu ag ymatebion yn Saesneg.</p>			
	<p>1.1.11.</p> <p>Gellir gwneud trefniadau i sicrhau cyfleusterau dwyieithog mewn cyfarfodydd cyhoeddus a bydd cofnodion y cyfarfodydd hyn ar gael yn y Gymraeg pan wneir cais.</p>			
<p>1.2</p> <p>Cynyddu'r defnydd ac effaith Cymraeg llafar mewn digwyddiadau cyhoeddus a digwyddiadau yn y coleg</p>	<p>1.2.1</p> <p>Sicrhau 'presenoldeb' y Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd coleg cyfan (staff a myfyrwyr) i gynnwys cyfleusterau cyfieithu ac i fonitro ceisiadau am gyfleusterau cyfieithu mewn Cyfarfodydd Cyhoeddus.</p> <p>Ystyried sut i sicrhau presenoldeb gweithredol y Gymraeg mewn cyfarfodydd o'r fath: e.e. cynnwys gair byr gan siaradwr Cymraeg i'r grŵp cyfan, y llywydd neu hwylusydd y cyfarfod yn crybwyll bod cyfleusterau cyfieithu ar gael a chroesawu cyfraniadau yn y Gymraeg ayb.</p>			

	<p>Mae uwch reolwyr yn dangos eu hymrwymiad i hyrwyddo'r iaith Gymraeg mewn digwyddiadau ffurfiol ac anffurfiol sy'n cynnwys noson wobrwyo flynyddol a sesiynau briffio staff. Mae cyflwynydd y noson wobrwyo yn cyflwyno'r digwyddiad yn ddwyieithog.</p>			
	<p>1.2.2</p> <p>Ystyried sut i sicrhau presenoldeb cyson staff addysgu a staff cymorth Cymraeg eu hiaith ymhlith myfyrwyr sydd wedi derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg cyn gynted â phosibl wrth iddyn nhw ddod i gysylltiad â'r coleg, a thrwy hynny sicrhau bod y myfyrwyr dan sylw yn cysylltu'r coleg â'r defnydd o Gymraeg.</p> <p>Datblygu cynllun mentora ar gyfer myfyrwyr Cymraeg eu hiaith.</p>			
	<p>1.2.3</p> <p>Negeseuon ar beiriant ateb y Coleg yn ddwyieithog a'r bwriad yw y bydd yr un adnodd ar beiriannau ateb mewnol y Coleg</p>			
<p>1.3</p> <p>Gwneud y defnydd gorau o'r staff i wella ethos ieithyddol Cymraeg y Coleg</p>	<p>1.3.1</p> <p>Parhau i nodi siaradwyr Cymraeg o blith y staff a chadw'r wybodaeth hon ar fas data – i gynnwys cofnod o sut i wella sgiliau ieithyddol aelodau'r staff e.e. mynychu gwersi Cymraeg i Oedolion, Cynllun Sabothol Cenedlaethol ayb.</p> <p>Bydd y Coleg yn llunio rhestr o aelodau staff gweinyddol ac academiaidd a all ddelio ag ymholiadau ffôn yn Gymraeg. Caiff y rhestr hon ei chynnwys mewn cyhoeddiadau a gynhyrchir yn ganolog yn y Coleg ac yng nghyfeirlyfr ffôn mewnol y Coleg.</p> <p>Datblygu llawlyfr staff yn y Gymraeg.</p>			
	<p>1.3.2</p> <p>Sicrhau gallu staff i ddatblygu cyfle dysgu cyfrwng Cymraeg/dwyieithog</p>			

	ar lefel strategol a gweithredu fel ei gilydd (h.y. cydlynnydd neu hyrwyddwr dwyieithrwydd).			
	<p>1.3.3</p> <p>Blaenoriaethu mentrau datblygiad staff o ran sgiliau ieithyddol Cymraeg mewn meysydd galwedigaethol â blaenoriaeth, a gwneud hynny – os yn briodol – gyda staff darparwyr rhanbarthol eraill.</p>			
	<p>1.3.4</p> <p>Sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o'r staff addysgu sydd wedi mynychu'r Cynllun Sabothol Cenedlaethol, a'r dull y gallan nhw weithredu fel aelodau o 'dîm craidd' o siaradwyr Cymraeg yn y coleg.</p>			
	<p>1.3.5</p> <p>Sicrhau bod defnyddio sgiliau ieithyddol Cymraeg yn y cyd-destun proffesiynol yn fanteisiol i aelodau'r staff (h.y. cynllunio i osgoi'r rhagdybiaeth nad yw'r Gymraeg yn sgil sydd o fantais nac yn golygu statws i'r unigolyn yn y coleg). Gallai hyn gynnwys rhoi premiwm ar yr oriau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg/dwyieithog yn y cynllun baich gwaith.</p> <p>Datblygu bas data o sefydliadau sy'n gofyn am gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>			
	<p>1.3.6</p> <p>Nodi swyddi rheng flaen allweddol lle mae'n hanfodol cael siaradwyr Cymraeg a dal ati i recriwtio i lenwi swyddi gydag unigolion yn meddu ar y sgiliau priodol. Sicrhau bod y negeseuon am ddiffyg sgiliau yn cael eu trosglwyddo'n fewnol ac yn allanol fel bo'n briodol (h.y. bod rhwydwaith 14-19 yn sylweddoli'r angen i hyfforddi siaradwyr Cymraeg ar gyfer meysydd galwedigaethol penodol, ayb.)</p>			
	<p>1.3.7</p>			

	<p>Hyrwyddo cyfathrebu sylfaenol yn y Gymraeg ymhlith holl aelodau'r staff, h.y ateb y ffôn, anghenion cyfathrebu pwnc-benodol megis cyrsiau cwrdd a chyfarch.</p> <p>Bydd croeso i unrhyw un ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg wrth ffonio Coleg Morgannwg.Bydd pob aelod o'r staff rheng flaen yn ymateb gyda chyfarchiad byr dwyieithog.</p>			
	<p>1.3.8</p> <p>Cyflwyno hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth o iaith ar gyfer staff newydd fel rhan o'r hyfforddiant sefydlu.</p>			
<p>1.4</p> <p>Cynyddu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad dysgwyr o'u hunaniaeth Gymraeg.</p>	<p>1.4.1</p> <p>Sicrhau bod ganddyn nhw wybodaeth i amlygu arwyddocad sgiliau ieithyddol y Gymraeg yn ardal yr awdurod lleol a De-Ddwyrain Cymru.. Gellid comisiynu ymchwil drwy Rwydwaith 14-19, er y dylai'r coleg ymgymryd â'r dasg ar frys, os nad oes ffynhonnell wybodaeth arall ar gael.</p>			
	<p>1.4.2</p> <p>Sicrhau bod staff addysgu yn cyflwyno gwerthfawrogiad positif o sgiliau ieithyddol Cymraeg i bob dysgwr, yn arbennig i'r rhai sy'n dilyn cyrsiau mewn meysydd galwedigaethol lle bo gwasanaeth cwsmeriaid a/neu wasanaeth sector cyhoeddus yn bwysig.</p>			
	<p>1.4.3</p> <p>Darparu ystod o sesiynau ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru ar gyfer dysgwyr – yn ystod y cyfnod sefydlu neu yn ystod eu rhaglenni – yn arbennig i'r rhai sy'n dilyn rhaglenni lle nodir bod sgiliau Cymraeg yn fanteisiol.</p>			
	<p>1.4.4</p> <p>Sicrhau bod y staff addysgu yn gwneud y defnydd gorau o siaradwyr</p>			

	gwâdd, ymweliadau a digwyddiadau eraill a drefnir i gynyddu gwerthfawrogiad dysgwyr o'r iaith Gymraeg a hunaniaeth Gymraeg. Gall fideo-gynadledda hwyluso hyn.			
	1.4.5 Ystyried sefydlu grŵp myfyrwyr Cymraeg eu hiaith i ddarparu adborth a chyngor ar fentrau'r coleg.			
	1.4.6 Trefnu digwyddiadau ar draws y coleg bob tymor ar thema treftadaeth a diwylliant Cymru i gynnwys gweithgareddau Cymraeg eu hiaith.			
	1.4.7 Hwyluso cyfleoedd o fewn addysg ffurfiol neu mewn cyd-destun anffurfiol lle disgwylir i ddysgwyr siarad Cymraeg gyda'u cymheiriaid (o'i gyferbynnu â defnyddio Cymraeg gydag athrawon neu ddarlithwyr); ystyried y potensial o sefydlu cysylltiadau gyda cholegau ac ysgolion eraill ar draws Cymru i hwyluso cyfathrebu cyfrwng Cymraeg. Monitro ceisiadau (a nodir ar y wefan hefyd) gan fyfyrwyr am nodiadau dwyieithog, addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac am gyrsiau Cymraeg ychwanegol.			
	1.4.8 Ystyried sefydlu grŵp myfyrwyr Cymraeg eu hiaith er mwyn darparu adborth a chyngor ar fentrau'r coleg.			
	1.4.9 Cysylltu â sefydliadau Cymraeg eraill, yn lleol a chenedlaethol i hyrwyddo sgiliau Cymraeg (e.e. Twf, Yr Urdd, Menter Iaith ayb.)			
1.5 Darpariaeth ar gyfer cynorthwyo dysgwyr drwy	1.5.1 Darparu cymorth tiwtorial ar gyfer myfyrwyr a fynychodd ysgolion cyfrwng			

gyfrwng y Gymraeg	Cymraeg yn flaenorol a gwerthuso effeithiolrwydd y cymorth hwn.			
	1.5.2 Ystyried sut i gynnig cymorth pwrpasol i ddysgwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg.			
1.6 Rôl gweithgareddau corfforaethol allweddol i gynyddu'r defnydd o Gymraeg yn y coleg	1.6.1 Coleg Morgannwg i fabwysiadu'n ffurfiol, ac fel sefydliad unigol, Gynllun Dwyieithog Cenedlaethol Colegau Cymru ac i gyflwyno Adroddiad Monitro i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Byddai hyn yn dilyn adolygiad rheolaidd o'r Cynllun drwy Ddatganiad Gweithredu Blynnyddol y Coleg a'i Gofrestr o Risgiau Strategol.			
	1.6.2 Cymryd camau i newid o arfer 'cynnig cyfleoedd cyfrwng Cymraeg' i werthuso cyflawniad yn nhermau gweithgaredd mesuradwy dysgwyr.			
	1.6.3 Sicrhau bod ethos Cymraeg a dysgu'r iaith yn cael eu cynnwys yn benodol a chyson mewn safonau a gweithdrefnau ansawdd (h.y. fformat cynlluniau gwaith y mae'r cynnwys yn ymwneud â'r iaith Gymraeg a chyfleoedd diwylliannol, a chynnal archwiliad).			
	1.6.4 Sefydlu a chynnal trafodaeth gyson oar faterion ethos Cymraeg a'r iaith Gymraeg rhwng uwch reolwyr a llywodraethwyr (e.e. eitemau agenda am safonau a gweithdrefnau ansawdd, nodi llywodraethwr i arwain materion ar yr iaith Gymraeg).			

	<p>1.6.5</p> <p>Sicrhau bod uwch staff allweddol yn derbyn y newyddion diweddaraf am ofynion strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran yr iaith Gymraeg ac addysg Gymraeg, yn benodol Iaith Pawb (2003) a Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg (2010) a darpar fentrau perthnasol.</p>			
	<p>1.6.6</p> <p>Dylid dosbarthu canllawiau Estyn ar safonau ac ansawdd a'r iaith Gymraeg ym maes addysg mewn perthynas â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin i'r holl staff perthnasol.</p>			
	<p>1.6.7</p> <p>Cyfrannu at fentrau sector gyfan i nodi a hyrwyddo atebion er mwyn galluogi ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ddwyieithog ar gyfer addysg ôl-16 ymhellach (h.y. materion cyllido, darpar fodolau darpariaeth ayb).</p>			

Haen 2 Datblygu sgiliau cyfathrebu dwyieithog i ychwanegu at y ddarpariaeth cyfrwng Saesneg				
Thema	Gweithgaredd penodol	Targed/ Tystiolaeth	Cyfrifoldeb	Dyddiad cyflawni
Cynnig darpariaeth sgiliau ieithyddol Cymraeg i fyfyrwyr yn dilyn cyrsiau	<p>2.1.1</p> <p>Cynnig naill ai Yr Iaith ar Waith CBAC neu unedau iaith Gymraeg priodol eraill i achredu dysgu yn Uned Iaith Bagloriaeth Cymru ar gyfer rhaglenni a nodwyd (cysylltu â swyddogion Uned Addysg cyfrwng Cymraeg yn y DfES er mwyn sicrhau bod dyfarniadau yn gymwys ar gyfer codiad o 25% cyfrwng Cymraeg/dwyieithrwydd).</p>			

dynodedig	Parhau â'r arferion da sydd eisoes wedi'u sefydlu gyda grwpiau dysgu staff ac ymestyn i ystod ehangach o ddysgwyr.			
	<p>2.1.2</p> <p>Gwerthuso priodoldeb y ddarpariaeth achrededig a ddefnyddir i gynnig sgiliau iaith Gymraeg o ran datblygu:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • sgiliau ieithyddol galwedigaethol priodol • dilyniant ieithyddol o gyflawniad cyn-16 • cyllido/gwerth credyd/oriau cyswllt a dysgu. 			
	<p>2.1.3</p> <p>Nodi a chynyddu'r nifer o ymrestriadau dysgwyr 16-19 oed yn dilyn darpariaeth Gymraeg galwedigaethol rhwng Medi 2010 a Gorffennaf 2015.</p> <p>Sicrhau bod gweithgaredd o'r fath yn cael eu cofnodi yn LA26 pan fo'n bosibl.</p>			

Haen 3 Datblygu darpariaeth cyfrwng Gymraeg ar gyfer dysgwyr ôl-14				
Thema	Gweithgaredd penodol	Targed/ Tystiolaeth	Cyfrifoldeb	Dyddiad cyflawni
3.1 Datblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg yn y	<p>3.1.1</p> <p>Nodi cyfleoedd i gynyddu'r ddarpariaeth 16-19 drwy gyfrwng y Gymraeg neu ddwyieithog yn y coleg rhwng 2010 a 2015, a symud y pwyslais o fesur y cynnig i fesur nifer y rhai sy'n derbyn</p>			

coleg	<p>3.1.2</p> <p>Ystyried dulliau eraill o gynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog (naill ai raglen gyfan neu unedau unigol dynodedig), e.e. darparu fideo-gynadledda neu ddulliau dysgu o hirbell, lle bo'n briodol.</p>			
<p>3.2</p> <p>Datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws rwydwaith 14-19</p>	<p>3.2.1</p> <p>Cynnal y mentrau presennol gydag ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg.</p>			
	<p>3.2.2</p> <p>Nodi'r darpar ddarpariaeth bosib ar gyfer gwaith partneriaeth gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg yn flaenoriaeth strategol</p>			
	<p>3.2.3</p> <p>Monitro defnydd dysgwyr o'r iaith er mwyn canfod a yw'r ddarpariaeth yn annog defnydd anffurfiol o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth ac ar gyfer asesiad ffurfiol.</p>			
	<p>3.2.4</p> <p>Sgiliau ieithyddol ac arbenigedd academaidd/galwedigaethol yr holl staff addysgu o fewn ardal y Rhwydwaith 14-19 neu o fewn ardal ehangach De Ddwyrain Cymru, fel bo'n briodol, i'w canfod a'u mapio.</p>			
	<p>3.2.5</p> <p>Nodi sgiliau perthnasol i'r Gymraeg yn yr ardal Rhwydwaith, ac yn rhanbarthol a chenedlaethol.</p>			
	<p>3.2.6</p> <p>Sefydlu argaeledd darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chyfluoedd i symud ymlaen.</p>			

	<p>3.2.7</p> <p>Ar y cyd ag aelodau rhwydwaith 14-19, nodi a gweithredu unrhyw ddatrysiad o ddiffygion yn y ddarpariaeth.</p>			
	<p>3.2.8</p> <p>Nodi staff addysgu o fewn y coleg ac ar draws yr ardal rhwydwaith 14-19 / yr ardal ehangach i fynychu Cynllun Sabothol Cenedlaethol.</p>			
	<p>3.2.9</p> <p>Nodi a rhoi trefniadau ar waith ar gyfer y staff sy'n addysgu ar gyrsiau dwyieithog neu gyrsiau cyfrwng Cymraeg (e.e. mentora, modelau ar gyfer cydweithio gydag athrawon o ysgolion cyfrwng Cymraeg, ayb.)</p>			
	<p>3.2.10</p> <p>Nodi anghenion eraill ar gyfer hyfforddi staff (e.e. dulliau addysgu, cymorth i ymgorffori gweithgareddau Cymraeg yng nghynlluniau gwaith a gwersi) a threfnu hyfforddiant priodol.</p>			